

Swydd Ddisgrifiad

Teitl y Swydd: Rheolwr Prosiect

Rôl yn atebol i: Arweinydd Darparu

Adran: Cyfarwyddiaeth Fenter; Employee Volunteering

Contract: Contract cyfnod penodol hyd at 30/06/2022

Volunteering Matters

Mae Volunteering Matters yn defnyddio grym unigryw gwirfoddoli i ddwyn pobl ynghyd a datblygu'n gymunedau cryfach, mwy gwydn ledled y DU. Rydym ni'n dwyn pobl ynghyd i ddatrys rhai o broblemau cymhlethaf cymdeithas.

Cefndir y Gyfarwyddiaeth Fenter

Ein Cyfarwyddiaeth Fenter yw cangen entrepreneuriaidd Volunteering Matters. Mae ein tîm yn darparu gwasanaethau masnachol yn seiliedig ar wirfoddoli a hyfforddiant i ystod o fusnesau blaenllaw y DU (Deyrnas Unedig). Mae gennym ddau wasanaeth sefydledig ar hyn o bryd; Employee Volunteering a Get The Gen.

Employee Volunteering (EV)

Rydym yn gweithio gyda busnesau yn y DU gan weithredu fel brocer i reoli rhaglenni mewnol gwirfoddoli gan gyflogeion. Rydym yn creu ac yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli cymunedol i'w cyflogeion sy'n cyd-fynd â'u Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol neu nodau eu busnes.

Trosolwg o'r Rôl

Rydym yn chwilio am Reolwr Prosiect brwdfrydig a dynamig i ymuno â'n tîm cenedlaethol i weithio fel un o'r prif reolwyr. Byddai'r ymgeisydd delfrydol yn unigolyn sy'n gallu gweithio'n hyblyg ac yn dangos dealltwriaeth ac ymrwymiad i'n gwerthoedd sefydliadol. Bydd y Rheolwr Prosiect yn gyfrifol am reoli'r gwaith o fagu perthnasoedd allweddol gydag ystod o gleientiaid corfforaethol yn Rhondda Cynon Taf a Chasnewydd fel rhan o raglen ehangach sy'n cael ei hariannu gan y llywodraeth. Mae'r rhaglen yn ymwneud ag ystod o bartneriaid yn dod ynghyd i greu cyfleoedd ar gyfer pobl anweithredol yn economaidd a di-waith yn yr ardaloedd dan sylw. Maent hefyd yn gweithredu fel rheolwyr llinell uniongyrchol y tîm darparu sy'n gyfrifol am brosiectau yr ydym yn cytuno arnynt gyda'n cleientiaid.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

Magu a Rheoli Perthnasoedd â Chleientiaid

- Gweithredu fel prif gyswllt y cleient yn EV yn magu perthnasoedd cryfion â chysylltiadau cleientiaid allweddol a hwyluso ymgysylltiad â phob rhan o'n busnes fel sy'n angenrheidiol
 - Cadw'r cleient wrth galon eich gwaith, a bod yn hyblyg o ran sut allwn reoli a chyflawni lefelau gofynnol o wasanaeth ar gyfer ein cleientiaid sy'n addas iddynt hwy ac i EV fel busnes
 - Arwain trafodaethau gyda'n cleientiaid cyfredol fel sy'n briodol ar bob agwedd ar eu hymgysylltiad parhaus â'n gwasanaeth EV a cheisio'n rhagweithiol i ehangu'r busnes ac incwm fel rhan o'r trafodaethau hyn
 - Arwain trafodaethau adnewyddu gyda chleientiaid cyfredol a pharatoi cynigion ar gyfer gwaith cysylltiedig.
-

- Darparu profiad gwasanaeth cwsmer o'r safon uchaf

Rheoli'r Tîm Darparu i gynnig gwasanaeth o'r ansawdd orau yn gyson i gleientiaid

- Rheoli'n effeithiol portffolio hyblyg o ddarpariaeth cleientiaid
- Bod yn gyfrifol am reoli'n effeithiol y tîm darparu i gynnig gwasanaeth o'r ansawdd orau mewn perthynas ag ystod o weithgareddau gwirfoddoli fel y cytunir â chleientiaid corfforaethol, a datblygu ac addasu adnoddau ychwanegol i hwyluso'r ddarpariaeth yn ôl yr angen
- Sicrhau bod y tîm darparu yn rheoli'r holl risg yn ddarpariaeth ein gwasanaeth er mwyn bodloni'r holl rwymedigaethau cydymffurfio (mewn perthynas â deddfwriaeth allanol a pholisïau mewnol)
- Cyfrannu at systemau a phrosesau i uchafu effeithiolrwydd y tîm, a'u gweithredu
- Arwain pob gwasanaeth monitro, gwerthuso ac adrodd cytunedig gyda chleientiaid fel rhan o'u gweithgareddau

Rheolaeth weinyddol ac ariannol

- Cynnal a chadw cofnodion o ansawdd dda a chyfredol o weithgareddau cleientiaid ar bob system fewnol
- Datblygu a chynnal cyllidebau'r prosiect ar gyfer cleientiaid yn y portffolio, sicrhau taliadau cyflym i'r amserlen y cytunwyd arni gyda chleientiaid a bod yr holl anfonebau yn cael eu talu, a chyfrannu at adroddiadau ariannol mewnol yn ôl yr angen
- Dangos arweinyddiaeth o ran cyfrannu at strategaeth gwella parhaus y tîm mewn perthynas ag amcanion adrodd mewnol cyffredin

Arweinyddiaeth o fewn y tîm

- Darparu rheolaeth llinell effeithiol a chefnogol i'r tîm darparu, gan neilltuo gwaith yn ôl yr angen a monitro'n rheolaidd ansawdd eu darpariaeth
- Bod yn aelod rhagweithiol o Dîm Rheoli EV a helpu i hybu ein strategaeth gwelliant parhaus
- Cysylltu'n effeithiol â'r Arweinydd Darparu a Rheolwyr Prosiect eraill o ran dosbarthu'n effeithiol adnoddau'r tîm er mwyn bodloni amcanion y cleient a rhwymedigaethau mewnol
- Cynnal pob dyletswydd arall sy'n rhesymol ofynnol gan eich rheolwr llinell.
- Cynorthwyo'r rheolwr Datblygu Busnes Newydd gyda chynigion i ddarpar gleientiaid drwy rannu syniadau newydd, anghenion cymunedol neu brofiadau gwirfoddolwyr yn ôl yr angen
- Tasgau gweinyddol, gan gynnwys cynnal cofnodion hygyrch, effeithiol a chyfredol, a defnyddio Microsoft Office a phecynnau meddalwedd eraill
- Gweithio ar y cyd ac yn annibynnol fel aelod o'r tîm Employee Volunteering a'r Gyfarwyddiaeth Fenter ehangach i gefnogi meysydd eraill o'n gwaith a'n strategaeth wella barhaus
- Hyrwyddo a chynrychioli Volunteering Matters a'n gwaith yn unol â'n gwerthoedd

D.S. Mae'r swydd ddisgrifiad hwn yn ganllaw i natur y dyletswyddau allweddol sydd ynghlwm â'r swydd hon, yn hytrach na rhestr gynhwysfawr o dasgau. Disgwylir i ddeiliad y swydd ymgymryd â dyletswyddau eraill o bryd i'w gilydd sy'n rhesymol ofynnol gan ei reolwr.

Manyleb Person

Wrth lunio rhestr fer a phenderfynu pwy i'w benodi yn y swydd hon, byddwn yn chwilio am dystiolaeth o'r sgiliau, gwybodaeth, profiad a phriodweddau personol canlynol. **Y llythyr eglurhaol yw eich cyfle i ddangos sut ydych chi'n bodloni gofynion y fanyleb person.**

Hanfodol

- Yn hynod frwd dros wirfoddoli, ac yn ymrwymedig iddo, a dealltwriaeth o'i botensial fel grym i gyflawni newid
- Yn hynod frwd dros ein gwerthoedd sefydliadol a'n hamgylchedd gwaith cynhwysol, ac yn ymrwymedig iddynt
- Sgiliau cyfathrebu syml a sgiliau trin pobl cryf, gan gynnwys y gallu i fagu perthnasoedd proffesiynol ac ysbrydoli eraill
- Profiad o weithio'n effeithiol mewn tîm, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid allanol a/neu mewn timau sy'n wynebu cwsmeriaid
- Profiad o weithio'n annibynnol a chwblhau gwaith o safon er mwyn cyflawni'n llwyddiannus fel rhan o amcanion ehangach
- Profiad o weithio neu wirfoddoli gyda sefydliadau cymunedol a/neu fusnesau, yn ogystal â gwybodaeth a dealltwriaeth o rai o'r materion cyffredin mae cymdeithas yn eu hwynebu
- Sgiliau gweinyddu, cadw cofnodion a TG rhagorol, gan gynnwys prosesu geiriau, taenlenni, e-bost, office 365, Microsoft Teams, Zoom, Systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid, MS Forms
- Trwydded yrru lawn y DU a pharodrwydd i deithio ledled Casnewydd, Rhondda Cynon Taf a thu hwnt yn ôl yr angen. Gweithredu yn unol â chanllawiau COVID-19.
- Yn gallu rheoli portffolio o brosiectau a rhaglenni cymhleth mewn amgylchedd gwirfoddoli, gan gynnwys sicrhau ansawdd, rheoli risgiau a chyllidebau
- Yn gallu darparu rheolaeth llinell gefnogol a threfnu'n effeithiol llwyth gwaith aelodau'r tîm darparu
- Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o Gyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol ac Employee Volunteering

Dymunol

- Yn gallu siarad Cymraeg neu barodrwydd i ddysgu
- Profiad o reoli gwirfoddolwyr a/neu wirfoddoli gan gyflogeion
- Profiad o ddatblygu busnes a chynyddu incwm
- Profiad o farchnata ar gyfryngau cymdeithasol a rheoli digwyddiadau
- Profiad o gasglu data i fesur effaith ac adrodd i sawl rhanddeiliad

Amodau a Thelerau

Dyddiad dechrau: Rhag 2021/Ionawr 2022 – 30/06/2022

Oriau: 35 awr yr wythnos. Ystyrir cynigion i weithio'n rhan amser (o leiaf 28 awr) neu rannu swyddi

Lleoliad: Casnewydd a/neu Rhondda Cynon Taf

Cyflog: £28,500 cyfwerth â llawn amser

Gwyliau: Gwyliau blynyddol di-derfyn yn unol â'n strategaeth gweithio hyblyg

Pensiwn: Cynllun Ymddeoliad Hyblyg Cyfrannol

Aswariant Bywyd: Aswariant ar gyfer marw yn y swydd 3 gwaith y cyflog blynyddol, heb unrhyw gost i'r cyflogai.

Buddion eraill i gyflogaeth: cynllun beicio i'r gwaith, benthyciad di-log i brynu cerdyn teithio blynyddol ac absenoldeb sabothol ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.

Cymwysterau: Mae profiad perthnasol a gwerthoedd yn bwysicach ar gyfer y rôl hon na chymwysterau penodol.

Ein Gwerthoedd a'n Dull Gweithio

Mae Volunteering Matters yn cynnig gweithio hyblyg i bawb ac yn ein holl waith. Rydym yn gweithredu athroniaeth o 'Ryddid mewn Fframwaith' ac yn cael ein harwain gan ein gwerthoedd;

- Grymuso
- Cynhwysol
- Tosturiol
- Cadarnhaol
- Syml

Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae Volunteering Matters yn croesawu pob ymgeisydd ac yn awyddus i sicrhau bod eu tîm yn adlewyrchu amrywiaeth y DU a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Hoffent annog ceisiadau gan bobl anabl, LGBT ac o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Hyderus o ran Anabledd ac Addasiadau Rhesymol

Gallwn sicrhau y byddwn yn cyfweld unrhyw un anabl y mae ei gais yn bodloni meini prawf gofynnol y rôl. Rhowch dystiolaeth yn eich llythyr, sy'n dangos eich bod yn bodloni'r lefel cymhwysedd ofynnol yn y "fanyleb person". Er mwyn cael eich ystyried am sicrwydd cyfweliad neu i drafod addasiadau rhesymol, nodwch hyn yn eich llythyr.

Mae penodi yn y swydd hon yn amodol ar Aelodaeth o'r cynllun Diogelu Grwpiau Bregus. Ni fydd euogfarn o reidrwydd yn rhwystr i gyflogaeth.
